Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Padarn Sant

**Ffordd Llanbadarn**
**Aberystwyth**
**Ceredigion**
**Aberystwyth**
**SY23 1EZ**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Padarn Sant

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Padarn Sant |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ceredigion |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Ysgol Gatholig Rufeinig |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 125 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 107 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | * |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 17.1% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 34.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 22.4% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 02/06/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 27/03/2023 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: [fyysgolleol.llyw.cymru](fyysgolleol.llyw.cymru)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gatholig Padarn Sant yn gymuned hapus ac amrywiol lle mae disgyblion yn gwneud cynnydd da ar draws eu hystod o fedrau. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn yn ystod gweithgareddau ac yn mwynhau cydweithio â'u ffrindiau wrth gwblhau tasgau a datrys problemau. Mae disgyblion hŷn yn ofalgar iawn tuag at eu cyd-ddisgyblion iau ac yn datblygu perthnasoedd cryf â nhw.

Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi amrywiaeth ei disgyblion ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i bawb werthfawrogi gwahanol ddiwylliannau a thraddodiadau. Mae hyn yn hyrwyddo ymdeimlad cryf o barch ar y ddwy ochr, ac yn cefnogi lles disgyblion yn llwyddiannus. Mae yna nifer o grwpiau a phwyllgorau disgyblion sy'n galluogi disgyblion i wneud penderfyniadau am eu profiadau yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynegi eu hunain yn hyderus yn ystod eu gweithgareddau, ac yn cydweithio'n dda â'i gilydd. Mae medrau Cymraeg llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda ac maent yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa yn hyderus, gydag atalnodi da. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn darllen â mynegiant da, ac mae llawer o ddisgyblion hŷn yn dehongli negeseuon y tu hwnt i'r testun, gan drafod cymeriadau a llunio casgliadau'n aeddfed. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn ystod dda o gyd-destunau diddorol. Mae eu medrau digidol yn gryf, ac maent yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r feddalwedd a'r offer gorau i'w cynorthwyo â gwahanol dasgau. Mae ysgrifennu'r rhan fwyaf o'r disgyblion iau yn datblygu'n dda. Maent yn dangos dealltwriaeth dda o atalnodi syml ac yn sillafu geiriau cyfarwydd yn gywir. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn cynhyrchu ystod dda o ysgrifennu creadigol a ffeithiol, ond nid ydynt bob amser yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig estynedig mewn ystod ddigon eang o ffurfiau.

Mae'r ysgol yn parhau i ddatblygu eu cwricwlwm, gan ddarparucyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau a magu hyder a gwydnwch. Mae athrawon yn sicrhau bod y cwricwlwm wedi'i seilio ar yr ardal leol, gan ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o Gymru mewn cyd-destun ehangach. Mae'r staff yn darparu ystod werthfawr o weithgareddau sy'n datblygu annibyniaeth y disgyblion yn dda. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ddisgyblion hŷn yn bennaf wneud penderfyniadau ynglŷn â beth maent yn ei ddysgu, a sut, yn llai datblygedig.

Mae'r pennaeth a'r arweinwyr, gan gynnwys aelodau o'r corff llywodraethol, yn gosod disgwyliadau uchel i bawb, ac mae ganddynt brosesau wedi'u gwreiddio'n dda sy'n effeithio'n dda ar ddatblygiad yr ysgol. Mae staff yn rhannu arferion, yn fewnol a gydag ysgolion eraill, ac fe gaiff dysgu proffesiynol effaith gadarnhaol ar arfer.

## Argymhellion

A1 Datblygu cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ddatblygu eu hysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm

A2 Darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar beth maent yn ei ddysgu, a sut

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mae mwyafrif y disgyblion yn dechrau yn yr ysgol â medrau sy’n briodol i’w hoedran a’u cyfnod datblygu, gyda lleiafrif ohonynt islaw’r hyn sy’n ddisgwyliedig, yn enwedig mewn datblygiad iaith. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da dros gyfnod ar draws ystod y gwahanol fedrau.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn y dosbarth derbyn yn meddu ar fedrau echddygol cryf, er enghraifft defnyddio gefeiliau i godi gwahanol wrthrychau wrth fesur unedau ansafonol. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn gwrando’n dda yn ystod gweithgareddau. Maent yn siarad yn glir, a llawer ohonynt yn mynegi eu safbwyntiau a’u barn â hyder. Er enghraifft, yn ystod gweithgaredd dosbarth cyfan, maent yn esbonio’r ‘gwaith prysur’ y gwnaethant ei fwynhau ar y cyfan yn ystod y dydd. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn siarad yn hyderus wrth drafod y difrod a wnaed i ardal coetir yr ysgol gan fandaliaid.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o eiriau ac ymadroddion Cymraeg cyfarwydd, ac yn datblygu hyder wrth ddefnyddio ystod gynyddol gymhleth o eirfa. Mae llawer ohonynt yn dangos ynganiad da wrth siarad; er enghraifft, mae’r disgyblion iau yn penderfynu beth hoffent ei gael i ginio, yn nodi pa ddiwrnod yw hi a sut beth yw’r tywydd heddiw. Maent yn ymateb yn hyderus i gyfarwyddiadau a chwestiynau Cymraeg. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn mwynhau gemau iaith lle maent yn defnyddio amser y dyfodol i ofyn cwestiynau i’w partner. Maent yn ateb yn hyderus, gan gyfeirio at i ble y byddant yn mynd a beth fyddant yn ei wneud.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn datblygu’n dda. Maent yn dangos dealltwriaeth dda o’u llythrennau a’u seiniau ac yn magu hyder wrth ffurfio geiriau ac ymadroddion syml yn annibynnol. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn darllen yn hyderus ac yn defnyddio ystod o strategaethau i’w helpu pan fyddant yn wynebu geiriau newydd neu heriol. Mae darllenwyr mwy abl yn dangos mynegiant rhagorol ac yn addasu tôn eu llais wrth ddehongli dyfynodau ac ebychnodau uniongyrchol yn y testun. Maent yn trafod eu llyfrau yn aeddfed ac yn esbonio beth maent yn meddwl fydd yn digwydd wrth i’r stori ddatblygu.

Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 4 yn darllen yn rhugl a gyda mynegiant da. Mae bron pob un o’r disgyblion yn datblygu cariad at ddarllen ac yn mwynhau llyfrau ar destunau sydd o ddiddordeb iddynt, fel anifeiliaid o bob cwr o’r byd. Maent yn cyfeirio at eu hoff awduron a ph’un a oes yn well ganddynt ddeunydd ffuglen neu ffeithiol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn darllen yn hyderus. Mae llawer o ddarllenwyr mwy abl yn cyflwyno tensiwn i’r testun wrth iddynt ddarllen ar goedd, ac yn datblygu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd darllen y tu hwnt i’r testun wrth iddynt drafod gwahanol gymeriadau. Maent yn trafod ystod o genres sy’n apelio atynt, ac yn cyfeirio at eu darllen blaenorol, er enghraifft wrth drafod cerdd gan awdur adnabyddus.

Mae llawer o ddisgyblion iau yn ysgrifennu disgrifiadau diddorol am eu hymweliad â’r orsaf dân leol yn Aberystwyth. Maent fel arfer yn cynnwys atalnodi priodol, ac mae’r

mwyafrif ohonynt yn sillafu geiriau cyfarwydd yn gywir. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn cofnodi eu hymchwiliad am sut mae gwahanol sylweddau yn toddi mewn dŵr gan ddefnyddio amrywiaeth effeithiol o eirfa wyddonol. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 4 yn creu taflenni effeithiol yn perswadio pobl i beidio â niweidio'u cyrff trwy ysmygu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn ysgrifennu'n dda mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Maent yn ysgrifennu erthyglau papur newydd hynod fanwl am beryglon bwyta'n afiach, a storïau ffuglen wyddonol difyr am deithio trwy amser. Maent yn amrywio eu strwythurau brawddeg ac yn ychwanegu ystod dda o effeithiau fel cwestiynau rhethregol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion hŷn bob amser yn cynhyrchu ysgrifennu estynedig mewn ystod ddigon eang o genres.

Mae medrau mathemategol y rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn dda. Maent yn creu graffiau bloc yn seiliedig ar eu data am eu hoff gân y defnyddion nhw i ddathlu 'Dydd Miwsig Cymru.' Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn meddu ar fedrau rhif cadarn. Maent yn cymhwyso'u medrau yn llwyddiannus, er enghraifft wrth gynllunio prawf teg am ba mor bell y bydd gwahanol wrthrychau o'r bag siopa yn rholio pan fydd y bag yn torri ar lethr. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 4 yn cyfrifo arwynebedd siapiau cyfansawdd trwy gyfrif centimedrau sgwâr yn gywir. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn hyderus, er enghraifft wrth ddadansoddi'r costau sy'n gysylltiedig â chreu gwahanol gynhyrchion ar gyfer y diwrnod menter adeg y Nadolig, gan ystyried yr elw ar ôl tynnu'r costau cynhyrchu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o bob oedran a gallu yn defnyddio offer digidol yn hyderus i gefnogi eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion iau yn cyfuno lluniau ac ysgrifennu i gofnodi eu hymweliad â'r swyddfa bost lle buont yn postio llythyrau. Maent yn ymchwilio i faint o fwytawyr cig, llysieuwyr, a feganiaid sydd yn eu dosbarth. Wedi iddynt ddod o hyd i'r data, maent yn creu graffiau i ddangos eu canlyniadau gan ddefnyddio meddalwedd benodol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn defnyddio amrywiaeth o dechnoleg ddigidol yn effeithiol ac yn annibynnol. Maent yn defnyddio pecyn meddalwedd i greu cyflwyniad effeithiol o'u cerddi yn disgrifio'r barcud coch. Maent yn ychwanegu cefndir a cherddoriaeth at eu cyflwyniad ac yn ei lanlwytho i system yr ysgol.

Mae medrau creadigol llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canu gydag ymwybyddiaeth dda iawn o draw a thôn ac yn mwynhau canu caneuon cyfarwydd yn Gymraeg a gyda'u ffrindiau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn creu calendrau effeithiol iawn wedi'u dylunio yn arddull 'Starry night' Van Gogh. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn creu paentiadau effeithiol sy'n efelychu gwaith amrywiaeth o arlunwyr lleol, yn adlewyrchu gwahanol olygfeydd yn yr ardal. Maent yn cysylltu'r gwaith hwn â'u dehongliad o saith rhyfeddod ardal Aberystwyth. Er enghraifft, creon nhw baentiadau effeithiol o'r castell, lan y môr, Craig Glais, a Bryngaer Pendinas.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn lle hapus lle maent yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn derbyn gofal da. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda iawn yn eu dosbarthiadau ac yn yr ardaloedd dysgu allanol. Mae'r disgyblion hŷn yn dangos gofal gwych am eu cyd-ddisgyblion iau ac yn eu

cynorthwyo yn ystod amseroedd egwyl ac amser cinio. Maent yn teimlo bod yr ysgol yn deulu hapus lle mae disgyblion ac oedolion yn dysgu gyda'i gilydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos aeddfedrwydd yn y ffordd y maent yn cymryd eu tro i wrando a chyfrannu at drafodaethau. Maent yn cydweithio'n dda â'u ffrindiau mewn grwpiau, er enghraifft wrth drafod symbolau ar fap ym Mlwyddyn 4 a 5. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion bob amser yn barod i ddysgu ac yn frwdfrydig am eu gwaith. Mae ganddynt foesau da ac yn dangos parch at ei gilydd, at staff ac ymwelwyr. Maent yn deall pwysigrwydd datblygu gwydnwch ac yn siarad yn frwdfrydig am fenter 'be the bear' a'r effaith y mae'n ei chael ar eu dysgu. Mae llawer ohonynt yn dangos brwdfrydedd gwirioneddol tuag at eu gweithgareddau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn dangos lefel dda iawn o annibyniaeth ac yn dyfalbarhau'n dda iawn â'u gweithgareddau a phan fydd yn amser tacluso yn y dosbarth.

Mae llawer o ddisgyblion yn esbonio pwysigrwydd y cymorth emosiynol a gânt yn yr ysgol, ac yn gwybod sut i gael help pan fydd ei angen arnynt. Maent yn hyderus i siarad ag athrawon a staff cymorth os oes rhywbeth yn eu poeni. Maent yn gwybod y bydd y staff yn sicrhau eu bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

Cynhelir nifer o grwpiau sefydledig llais y disgybl yn yr ysgol. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod ystod o faterion, gan wneud penderfyniadau sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu profiad yn yr ysgol. Er enghraifft, roedd y cyngor ysgol yn ddylanwadol yn lobïo i adfer menter ysgol boblogaidd a oedd yn cefnogi eu lles yn llwyddiannus, yn eu barn nhw. Hefyd, cyflwynodd y cyngor ysgol y fenter 'Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth', gan gynyddu ymwybyddiaeth am hawliau plant a sut i ddathlu amrywiaeth. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn defnyddio 'blychau gofidiau' i gyfleu pryderon i staff, sy'n ymateb i'r pryderon hyn yn brydlon, gan effeithio'n gadarnhaol ar les disgyblion. Mae disgyblion wedi addasu polisi gwrthfwlio'r ysgol ac wedi datblygu eu cod gwrthfwlio eu hunain sy'n addas ar gyfer plant, er budd eu cyd-ddisgyblion. Maent yn annog disgyblion i rannu eu pryderon os ydynt yn teimlo bod unrhyw un yn cael ei drin yn annheg. Mae'r grŵp e-ddiogelwch yn darparu cymorth da ar gyfer eu cyfoedion, ac o ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn meddu ar ymwybyddiaeth dda o sut i aros yn ddiogel ar-lein.

Caiff lles y rhan fwyaf o ddisgyblion ei gefnogi'n effeithiol trwy ystod o gyfleoedd dysgu yn yr awyr agored, fel ymweliadau rheolaidd ag ardal goetir yr ysgol. Maent yn mwynhau eu sesiynau wythnosol yn yr awyr agored, ac yn dysgu glynu at ganllawiau diogelwch pwysig. Maent yn elwa ar wneud gwahanol weithgareddau mewn amgylchedd awyr agored y maent yn ei fwynhau. Mae bron pob un o'r disgyblion yn deall buddion bwyta ac yfed yn iach ac yn mwynhau amrywiaeth dda o weithgarwch corfforol. Ceir ystod eang o weithgareddau yn ystod y diwrnod ysgol ac ar ôl yr ysgol, fel cyfeiriannu, hoci a phêl-droed. Mae'r grŵp lles disgyblion yn annog eu cyfoedion i fyw bywydau iach a defnyddio eu cyllideb yn ddoeth i brynu adnoddau addas i'w cyfoedion chwarae â nhw yn ystod amseroedd egwyl.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r ysgol wedi datblygu cwricwlwm diddorol yn seiliedig ar egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru. Mae athrawon yn dangos dealltwriaeth dda o'r cwricwlwm ac yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i ddiwallu anghenion eu disgyblion. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n adeiladu'n rhesymegol ar brofiadau blaenorol y

disgyblion. Mae arweinwyr a staff wedi datblygu ymagweddau pwrpasol at sicrhau cynnydd effeithiol ym medrau a dealltwriaeth disgyblion. Mae staff yn y blynyddoedd cynnar yn asesu medrau'r disgyblion wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol, ac yn monitro cynnydd o'u man cychwyn. Rhoddir sylw manwl i les a datblygiad personol pob disgybl. Mae'r ysgol yn darparu cyfoeth o brofiadau sydd wedi'u cynllunio i gefnogi gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o'r ardal leol yn Aberystwyth a'r cyffiniau. Caiff disgyblion o gefndiroedd difreintiedig eu cynorthwyo a'u hannog yn fedrus i ffynnu fel unigolion. Mae'r ysgol yn darparu ystod o gyfleoedd sy'n sicrhau mynediad cyfartal i bawb. Mae'r ardaloedd awyr agored yn cefnogi dysgu'r disgyblion yn dda. Er enghraifft, mae staff yn darparu profiadau ac ymweliadau go iawn gwerthfawr sy'n datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o'r byd naturiol.

Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi amrywiaeth eu disgyblion ac yn darparu cyfleoedd cyfoethog iddynt ddathlu eu diwylliant a'u traddodiadau eu hunain o fewn cyd-destun Cymreig modern. Mae athrawon a staff cymorth yn gweithio'n agos â rhieni a gofalwyr i sicrhau bod disgyblion yn teimlo bod eu diwylliant a'u traddodiadau'n cael eu parchu a'u gwerthfawrogi. Mae hon yn nodwedd drawiadol yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol trwy ystod o weithgareddau difyr. Yn gyffredinol, mae athrawon yn sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu cynllunio i ddarparu lefel addas o her i ddisgyblion ar draws yr ystod oedran a gallu. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion rannu eu syniadau am gyfeiriad eu dysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn parhau i ymgysylltu â'u dysgu am gyfnodau estynedig. Mae'r 'swyddi prysur' yn galluogi disgyblion iau i ddatblygu gwydnwch yn llwyddiannus. Mae'r dull hwn yn hynod effeithiol wrth ddatblygu eu gallu i weithio'n annibynnol am gyfnodau estynedig ac i ystyried p'un a ydynt wedi llwyddo i gwblhau tasg. Er enghraifft, maent yn dangos brwdfrydedd mawr wrth iddynt ymchwilio i'r defnydd gorau i'w ddefnyddio ar gyfer clogyn marchog. Fodd bynnag, yn y dosbarthiadau hŷn yn bennaf, nid oes digon o gyfleoedd bob amser i ddisgyblion wneud penderfyniadau am lefel yr her sy'n gysylltiedig â gweithgareddau, nac i ddewis sut hoffen nhw ddysgu. O ganlyniad, nid yw ychydig o ddisgyblion hŷn, yn bennaf, yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent bob amser.

Mae athrawon yn defnyddio ystod dda o adnoddau i ysgogi trafodaeth ac yn darparu cyd-destunau dilys i'r disgyblion ddatblygu eu syniadau, gan arwain at enghreifftiau o ysgrifennu hynod ddifyr. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn llunio llythyrau perswadiol ystyriol a manwl at Aelod Seneddol lleol yn mynegi eu pryder am effaith cynhesu byd-eang ar yr amgylchedd. Fodd bynnag, nid yw cyfleoedd i'r disgyblion hŷn ddatblygu eu hysgrifennu estynedig trwy ystod ddigon eang o genres wedi'u datblygu'n llawn.

Mae athrawon a disgyblion yn dangos perthynas gadarnhaol a chefnogol yn ystod gweithgareddau ar draws yr ystod oedran a gallu. Mae athrawon a staff cymorth yn gofyn cwestiynau penagored treiddgar sydd wedi'u cynllunio i wneud i ddisgyblion feddwl drostynt eu hunain. Yn gyffredinol, mae gweithgareddau wedi'u hamseru'n dda, yn ddifyr ac yn ddiddorol i'r disgyblion. Mae athrawon a staff cymorth yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson yn ystod yr holl weithgareddau. Mae menter 'trochi' yn llwyddiannus, ac mae disgyblion yn frwdfrydig tuag at yr iaith. O ganlyniad, mae dealltwriaeth a hyder disgyblion wrth siarad Cymraeg yn datblygu'n dda.

Mae athrawon yn darparu adborth llafar rheolaidd a defnyddiol ar gyfer disgyblion, gan amlygu cryfderau ac agweddau iddynt eu datblygu ymhellach. Mae adborth ysgrifenedig yn gryno gyda ffocws priodol ar amlygu llwyddiannau ac awgrymiadau ar gyfer gwella. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu a chytuno ar eu meini prawf llwyddiant eu hunain ar gyfer gwahanol dasgau.

Mae arweinwyr a staff wedi datblygu trefniadau effeithiol ar gyfer monitro cynnydd disgyblion dros gyfnod. Mae eu dull yn cynnwys gweithgarwch asesu priodol ac yn ystyried datblygiad pob disgybl ym mhob agwedd ar eu dysgu. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd lle maent yn ystyried y ddarpariaeth ar gyfer pob disgybl ac unrhyw addasiadau sydd angen eu gwneud i gefnogi eu cynnydd.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol lle mae pob aelod o staff yn blaenoriaethu lles disgyblion. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn dangos empathi a charedigrwydd tuag at ei gilydd, ac yn teimlo'n ddigynnwrf a diogel mewn amgylchedd anogol. Caiff gwerthoedd yr ysgol eu gweu i bob agwedd ar eu darpariaeth.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn annog disgyblion i ddathlu ac arddel eu gwahaniaethau yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn trafod bwydydd y maent yn eu hoffi ac yn dangos parch at safbwyntiau pobl eraill. Mae'r ysgol yn dathlu ei hamrywiaeth yn effeithiol, er enghraifft trwy gynnal nosweithiau rhyngwladol, lle gwahoddir rhieni a gofalwyr i'r ysgol i ddathlu eu treftadaeth ddiwylliannol. Mae hyn yn darparu cyfle gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am elfennau fel bwydydd traddodiadol, cerddoriaeth a dawnsiau diwylliant penodol. O ganlyniad, ceir ymdeimlad cryf o gynwysoldeb yn yr ysgol. Mae staff yr ysgol yn cynorthwyo disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol yn effeithiol, ac o ganlyniad, yn gwneud cynnydd da ar draws y cwricwlwm o'u mannau cychwyn unigol.

Mae'r staff yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o anghenion disgyblion a sut i gefnogi eu dysgu. Mae systemau sefydledig cryf ar waith i nodi anghenion disgyblion pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol yn y blynyddoedd cynnar neu'n trosglwyddo i'r ysgol yn ddiweddarach. Mae staff yn sicrhau bod gan ddisgyblion broffil un dudalen, lle bo'n briodol, sy'n rhoi manylion am ddiddordebau ac anghenion dysgwyr, a sut orau y gellir eu cynorthwyo. Caiff y proffil hwn ei rannu â rhieni, ac mae'n cyfrannu'n sylweddol at y berthynas gref sy'n bodoli rhwng rhieni, gofalwyr a staff yr ysgol. Yn ychwanegol, lle bo'n briodol, mae staff a disgyblion yn llenwi dyddiadur cartref-ysgol manwl sy'n cael ei rannu â rhieni, ac yn cefnogi cynnydd disgyblion unigol yn dda.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd pwrpasol i bob un o'r disgyblion ddatblygu medrau arwain trwy gymryd rhan mewn amrywiaeth o grwpiau llais y disgybl. Er enghraifft, mae'r cynrychiolwyr eco yn codi ymwybyddiaeth am faterion yn ymwneud â newid hinsawdd trwy drefnu gwasanaeth i rannu negeseuon pwysig â disgyblion eraill. Cynhyrchodd y clwb TGCh fideo gyda gwybodaeth werthfawr ynglŷn â diogelwch ar-lein y maent wedi'i rannu ar wefan yr ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth cryf ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), trwy ddethol ymyriadau'n ofalus i gefnogi eu cynnydd a monitro

effaith yn rheolaidd. Mae’r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (CydADY) yn darparu arweinyddiaeth hynod effeithiol ac yn gweithio’n agos ag ystod o asiantaethau allanol ac ysgolion lleol i sicrhau bod y ddarpariaeth yn effeithiol, a bod disgyblion yn gwneud cynnydd da dros gyfnod. Mae cymorth ar gyfer lles wrth wraidd gweledigaeth yr ysgol. Darperir cymorth cymdeithasol ac emosiynol yn unigol trwy ymyriadau grŵp bach. Mae disgyblion sy’n mynychu’r grwpiau hyn yn siarad yn agored am yr effaith gadarnhaol a gaiff y cymorth hwn ar eu hyder a’u gallu i wneud cynnydd yn yr ysgol. Mae rhieni’n mynegi eu gwerthfawrogiad o’r cymorth emosiynol sy’n cael ei ddarparu gan yr ysgol hefyd.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth hirsefydledig â’r plwyf; er enghraifft, mae offeiriad yr ysgol yn aelod gwerthfawr o dîm lles yr ysgol, ac yn ymweld â’r ysgol bob wythnos i helpu ymgorffori ystod o faterion moesol a moesegol, fel gofalu am ein byd. Mae’r ysgol yn darparu amrywiaeth o ymweliadau diddorol o fewn yr ardal a thu hwnt, fel ymweliad â gorsaf leol y bad achub a Phontarfynach. Ceir synnwyr cryf o gymuned ar draws yr ysgol. Hefyd, mae athrawon yn darparu cyfleoedd da iawn i hyrwyddo diwylliant Cymreig, er enghraifft trwy astudio testun ar Saith Rhyfeddod Cymru a thrwy weithio gydag arlunwyr lleol i greu gwaith celf wedi’i ysbrydoli gan yr ardal gyfagos. Mae’r ysgol yn cymryd rhan mewn ystod o gystadlaethau lleol a chenedlaethol, fel Eisteddfod yr Urdd, sy’n rhoi cyfleoedd gwerthfawr i’r disgyblion fwynhau cystadlu a dathlu’r Gymraeg a’i diwylliant.

Mae’r ysgol yn monitro presenoldeb disgyblion yn drylwyr ac yn cysylltu’n agos â rhieni ac asiantaethau eraill, yn ôl yr angen. Ceir diwylliant diogelu cryf yn yr ysgol. Mae arweinwyr, athrawon a staff cymorth yn dangos dealltwriaeth gadarn o weithdrefnau diogelu ac amddiffyn plant.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinwyr yn cydweithio’n effeithiol â rhieni, staff a disgyblion i sicrhau gweledigaeth glir sy’n adlewyrchu anghenion cymuned yr ysgol yn gywir. Mae pob un ohonynt yn cyfrannu at hyrwyddo ethos pwrpasol o gynwysoldeb, gofal ac anogaeth yn Ysgol Padarn Sant. Mae hyn yn cwmpasu holl weithgareddau’r ysgol ac yn creu ethos o fod yn gymuned ddysgu glòs a hapus.

Mae’r pennaeth yn gosod disgwyliadau uchel iddi hi ei hun a’i staff a dyheadau uchel ar gyfer cynnydd a lles disgyblion. Mae trefniadau i ddosbarthu rolau a chyfrifoldebau ar draws yr ysgol yn effeithiol. Mae arweinwyr a staff yn deall ac yn cyflawni eu rolau yn gydwybodol a gydag ymroddiad.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod trefniadau pwrpasol ar waith i fynd i’r afael ag ystod o flaenoriaethau cenedlaethol. Er enghraifft, mae’r ysgol yn gwneud cynnydd addas wrth gynllunio cwricwlwm eang a chytbwys sy’n adlewyrchu’r cyd-destun lleol ac yn cyd-fynd ag egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru. Mae staff yn darparu cyfleoedd effeithiol ar gyfer disgyblion i gyfrannu at gyfeiriad eu dysgu, ac mae disgyblion yn gwneud awgrymiadau defnyddiol am beth yr hoffent ei ddysgu yn yr ysgol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr ysgol yn gwneud cynnydd cryf mewn gweithredu diwygio anghenion dysgu ychwanegol, ac o ganlyniad, mae disgyblion ag ADY yn cael eu cynorthwyo’n dda ac yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Caiff ystod o dystiolaeth uniongyrchol fel holiaduron, craffu ar waith disgyblion a theithiau dysgu eu defnyddio'n effeithiol gan arweinwyr i nodi cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Mae arweinwyr yn dadansoddi'r ffynonellau tystiolaeth hyn yn dda ac yn creu cynlluniau gweithredu manwl i fynd i'r afael ag agweddau y nodwyd eu bod yn flaenoriaethau. Er enghraifft, ymatebodd arweinwyr i ddeilliannau gweithgareddau monitro a amlygodd fod medrau llafaredd Cymraeg disgyblion yn faes i'w ddatblygu. Dechreuon nhw gynlluniau effeithiol, ac o ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion bellach yn siarad Cymraeg â hyder cynyddol. Mae ffocws ychydig o weithgareddau monitro, fodd bynnag, yn rhy eang, ac o ganlyniad, nid yw arweinwyr bob amser yn meddu ar ddealltwriaeth ddigonol o union effaith yr addysgu ar ddeilliannau disgyblion.

Mae dysgu proffesiynol yn cefnogi gwelliant yr ysgol yn dda. Mae pob un o'r staff yn ymgymryd â gweithgareddau perthnasol, gan gynnwys rheoli perfformiad, sydd wedi'u cysylltu'n agos â blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella. Er enghraifft, maent yn cydweithio'n bwrpasol i gynllunio asesiadau sy'n benodol i oedran sy'n galluogi staff i nodi'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion wedi iddynt gyrraedd yr ysgol. Mae staff wedi elwa ar gymryd rhan mewn gweithgareddau i ddatblygu eu medrau Cymraeg, gan gynnwys cynllun sabothol Cymraeg yr awdurdod lleol. Mae arweinwyr yn gwerthuso effaith gweithgareddau dysgu proffesiynol ar ddeilliannau yn fedrus. Er enghraifft, yn dilyn prosiectau ymholi yn seiliedig ar ymchwil, mae'r ysgol wedi gwneud newidiadau i'r ardaloedd darllen i hyrwyddo mwynhad disgyblion o lyfrau. Ar ôl hynny, mae arweinwyr wedi nodi mwy o addasiadau sydd eu hangen, ac wedi gweithio'n dda â disgyblion i roi'r newidiadau hyn ar waith.

Mae llywodraethwyr yn eiriolwyr ymroddgar iawn dros yr ysgol. Maent yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol, er enghraifft pan fyddant yn wynebu setliad heriol o ran y gyllideb. Mae ganddynt wybodaeth drylwyr am gryfderau'r ysgol, y meysydd i'w datblygu a'r cynnydd y mae'r ysgol yn ei wneud. Maent yn adnabod cymuned yr ysgol yn dda ac yn cymryd rhan yn rheolaidd yng ngweithgareddau'r ysgol. Er enghraifft, mae llywodraethwyr yn bresennol i gyfarfod â rhieni, a'u cyfarch, yn ystod noson rieni, ac maent yn eistedd gyda disgyblion amser cinio o dro i dro i drafod agweddau pwysig ar fywyd yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn hyrwyddo diwylliant diogelu cryf yn bwrpasol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn mwynhau eu cyfnod yn Ysgol Padarn Sant. Mae llywodraethwyr ac arweinwyr yn rheoli cyllidebau'r ysgol yn ofalus. Mae ganddynt wybodaeth drylwyr am sut mae'r ysgol yn defnyddio'i dyraniad o'r grant datblygu disgyblion a'r effaith a gaiff hyn ar ddeilliannau disgyblion. Er enghraifft, maent yn gwerthuso'r effaith gadarnhaol a gaiff cymorth targedig ar ddisgyblion sy'n emosiynol fregus. Mae llywodraethwyr yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni / gofalwyr a’r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a’r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny’n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion, lle bo’n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo’n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae’r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2023:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  05/06/2023